

Busnesau ar agor yn ystod y Coronafeirws:

Tri peth sylfaenol sy'n ofynnol

Mae perchnogion a rheolwyr busnesau sydd â'r hawl i aros ar agor yn ystod cyfnod yr argyfwng coronafeirws yn gorfod sicrhau eu bod yn cymryd pob mesur rhesymol i gynnal pellter o ddau fetr rhwng pobl â'i gilydd ar safle'r busnes.*

Mae tri pheth sylfaenol yn ofynnol.

- 1. Rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o ddau fetr rhwng pobl ar safle'r busnes.***

Mae mesurau rhesymol yn cynnwys marcio pellterau ar y llawr lle bydd pobl yn debygol o giwio, cyflwyno systemau unffordd ar hyd eiliau sy'n gulach na dau fetr, ac arddangos arwyddion amlwg yn gofyn i bobl fod yn amyneddgar ac i barchu'r rheol dau fetr.

- 2. Rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod niferoedd y bobl sy'n cael mynediad i safle'r busnes yn ddigon bach i gynnal y pellter o ddau fetr.***

Mae mesurau rhesymol yn cynnwys cyfrifo faint fyddai'r nifer fwyaf o bobl y gall eich safle gynnwys, gan barchu'r rheol dau fetr ar yr un pryd. Yna, arddangos arwydd amlwg wrth y fynedfa yn nodi'r nifer fwyaf o bobl a ganiateir ar y safle ar unrhyw adeg. Os nad yw nifer y bobl a ganiateir ar eich safle yn amlwg o'r tu allan, rhaid rhoi polisi 'un mas, un mewn' ar waith a gosod arwydd wrth y fynedfa yn gofyn i gwsmeriaid aros hyd nes y byddant yn cael eu gwahodd i mewn. Os yw eich safle yn rhy fach i fodloni'r rheol dau fetr, codwch arwyddion sy'n gofyn i gwsmeriaid aros y tu allan a chael gwasanaeth wrth y drws.

- 3. Rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o ddau fetr rhwng y bobl sy'n aros i ddod i mewn i safle'r busnes.***

Mae mesurau rhesymol yn cynnwys arddangos arwyddion sy'n amlwg o'r tu allan i'r safle yn gofyn i gwsmeriaid aros eu tro; marcio llinellau aros i sicrhau nad oes neb yn aros o fewn dau fetr i'r fynedfa a'r allanfa, a marcio pellter ciwio o ddau fetr. Dewch i gytundeb ag unrhyw siopau cyfagos sydd â hawl i fod ar agor ynghylch pa lwybr y dylai'r ciwiau ddilyn. Ystyriwch ddefnyddio marciau sydd ddim yn rhai parhaol, megis sialc, ar balmentydd yn hytrach na dulliau eraill o farcio a allai beri rhwystr neu faglu rhywun.

Gwneir yr argymhellion hyn o dan Reoliad 6(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri gofynion rheoliad 6(1) yn cyflawni trosedd sy'n dwyn y gosb o euogfarn ddiannod a dirwy.

*Nid oes rhaid i ddau aelod o'r un aelwyd gadw pellter o ddau fetr, na chwaith gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr.